Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



# Bwletin Allforio Blynyddol Bwyd a Diod Cymru 2023

# Allforion Bwyd a Diod Cymru 2023

Cynyddodd gwerth allforion bwyd a diod Cymru **£16 miliwn (2%)** rhwng 2022 a 2023.

Ers 2019, mae'r gwerth wedi cynyddu **£243 miliwn (43%)**.



Aeth **75%** o werth allforion bwyd a diod Cymru i'r UE, o'i gymharu â **57%** o rai'r DU.

Y categorïau allforio uchaf eu gwerth yn 2023 oedd Cig a Chynnyrch Cig **(£280m)** ac Ydau a Pharatoadau Ŷd **(£175m)**.



Y prif gyrchfannau ar gyfer allforion oedd



Ffrainc Iwerddon Gwlad Belg.

Allforiodd y DU werth **£24.7 biliwn** o fwyd a diod yn 2023, a oedd yn ostyngiad o **2%** ers 2022.



Roedd allforion bwyd a diod o Gymru yn werth **£813 miliwn** yn 2023, y gwerth blynyddol uchaf ar gofnod gan CThEF.





Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf ers 2019 yng ngwerth allforion Ydau a Pharatoadau Ŷd, o **£60m** i **£175m** **(194%)** a dyma'r ail gategori allforio mwyaf ers tair blynedd yn olynol.

www.businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy

bwyd-food@llyw.cymru

@BwydaDiodCymru

Bwyd a Diod Cymru | Food and Drink Wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50023, ISBN digidol 978-1-83625-341-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Dadansoddiad Categori Cynnyrch

Y tri chategori allforio mwyaf gwerthfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru yn 2023 oedd Cig a Chynnyrch Cig[1] (£280m), Ydau a Pharatoadau Ŷd (£175m), a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£131m).

Y categori a welodd y cynnydd canrannol mwyaf ers 2022 oedd Ydau a Pharatoadau Ŷd, gyda chynnydd o 9% o £160m i £175m. Dilynir hyn gan Goffi, Te, Coco a Sbeis, gyda chynnydd o 8% o flwyddyn i flwyddyn, gan godi o £18m i £19m.

Olew a Braster a welodd y gostyngiad canrannol mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, gan ostwng 34% o £5m i £3m[2].

Mae cyfansoddiad cyfanswm yr allforion bwyd a diod yn amrywio rhwng Cymru a'r DU, gyda sectorau penodol yng Nghymru yn gyfran mwy o gyfanswm yr allforion bwyd a diod o'i gymharu â'r DU fel y dangosir isod.

Cig a Chynnyrch Cig oedd y categori mwyaf ar gyfer Cymru, sef 34% o'r gwerth allforio bwyd a diod, ac yna Ydau a Pharatoadau Ŷd gyda chyfran o 22% o'r holl allforion bwyd a diod. Ar gyfer y DU, Diodydd oedd y categori gyda'r gyfran uchaf, sef 34%, ac yna Ydau a Pharatoadau Ŷd gyda 11%.

Y ddau gategori isaf ar gyfer Cymru oedd Olew a Braster ar <1% a Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl ar 1%. Ar gyfer y DU, y ddau gategori isaf oedd Olew a Braster, ar 2% a Pharatoadau Siwgr a Mêl ar 2%[3].

**Cyfran yr Allforion Bwyd a Diod yn ôl Categori, 2023**




---

1. Mae'r categorïau "Cig a Chynnyrch Cig" yn ogystal ag "Olew a Braster", yn wahanol i'r categorïau eraill, yn grwpiau o godau SITC 2 digid, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar dudalen olaf y ddogfen hon.
2. Mae'r holl gymariaethau blynyddol yn cymharu gwerthiant gwirioneddol. Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant.
3. Mae'r diffiniad o Fwyd Môr i'w weld ar dudalen olaf y ddogfen hon o dan cod 03 SITC.

# Dadansoddiad Cyrchfan

Roedd wyth o'r deg prif gyrchfan allforio bwyd a diod o Gymru o fewn yr UE, a'r ddwy wlad oedd y tu allan i'r UE oedd Saudi Arabia (8fed) ac UDA (9fed).

**10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth Allforion bwyd a diod (£ miliynau), 2023**

| Safle | Gwlad | Gwerth Allforio | Canran o Gyfanswm Allforion Bwyd a Diod |
|---|---|---|---|
| 1 | Ffrainc | 155 | 19% |
| 2 | Iwerddon | 148 | 18% |
| 3 | Gwlad Belg | 83 | 10% |
| 4 | Yr Almaen | 52 | 6% |
| 5 | Yr Iseldiroedd | 50 | 6% |
| 6 | Sbaen | 30 | 4% |
| 7 | Yr Eidal | 29 | 4% |
| 8 | Sawdi Arabia | 25 | 3% |
| 9 | UDA | 23 | 3% |
| 10 | Gwlad Pwyl | 17 | 2% |
| Cyfanswm yr Allforion Bwyd a Diod | | 813 | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

Roedd 75% o allforion bwyd a diod o Gymru wedi mynd i wledydd o fewn yr UE, a'r ail a'r trydydd rhanbarth uchaf eu gwerth oedd y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (8%, £68 miliwn), ac Asia ac Ynysoedd y De (6%, £46 miliwn).

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru yn ôl Rhanbarth, 2023**



# Cyrchfannau allforio yn yr UE

Roedd allforion bwyd a diod Cymru i'r UE yn werth £611m yn 2023, cynnydd o £17m ers 2022. Roedd hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth allforion Bwyd a Diod Cymru.

Allforiodd y DU 57% o'i nwyddau bwyd a diod i'r UE yn 2023, gan dynnu sylw at ddibyniaeth uwch Cymru ar fasnach yr UE o'i gymharu ag allforion y DU ar gyfer bwyd a diod.

Ffrainc oedd y gyrchfan uchaf ei gwerth ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru yn 2023 gyda gwerth o £155m, sy'n cyfrif am 19% o gyfanswm yr allforion bwyd a diod. Roedd cyrchfannau uchel eu gwerth eraill yr UE yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon (18%, £148m), Gwlad Belg (10%, £83m), Yr Almaen (6%, £52m), a'r Iseldiroedd (6%, £50m).

Roedd y 5 uchaf hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am 60% o allforion bwyd a diod o Gymru. Mae'r cyrchfannau uchaf ar gyfer y 5 categori uchaf eu gwerth i'w gweld yn Atodiad A, tudalen 17.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wledydd yr UE, 2023**



Y categorïau allforio uchaf eu gwerth i gyrchfannau'r UE yn 2023 oedd Cig a Chynnyrch Cig (£234 miliwn), Ydau a Pharatoadau Ŷd (£130m), a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£99 miliwn).

Ar draws pob un o'r un ar ddeg categori bwyd, cafodd y rhan fwyaf (>50%) o'u gwerth allforio ei gaffael o gyrchfannau'r UE.

Y categori oedd yn dibynnu fwyaf ar allforion yr UE oedd Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl, gyda 93% o'r gwerth yn mynd i wledydd yr UE.

Y categorïau lleiaf dibynnol ar yr UE oedd Bwyd Môr yn ogystal â Chynnyrch Bwytadwy Amrywiol gyda 50% o'u gwerthoedd allforio yn dod o wledydd yr UE.

**Dibyniaeth y Sector ar Allforion yr UE, 2023**



# Prif Farchnadoedd yr UE

## Ffrainc

Roedd allforion bwyd a diod i Ffrainc yn werth **£155m** in 2023. yn 2023. Cynyddodd allforion **£4.5m** ers 2022 (yr ail fwyaf yn yr UE), a chynyddodd **£70.6m** ers 2019 (y mwyaf yn yr UE).

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori uchaf ei werth, oedd yn **£109.9m** (71% o allforion bwyd a diod i Ffrainc). Allforiodd y DU **£2.75bn** o nwyddau bwyd a diod i Ffrainc yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ffrainc, 2023 (£ miliynau)**



# Prif Farchnadoedd yr UE

## Iwerddon

Roedd allforion bwyd a diod i Iwerddon yn werth **£148m** yn 2023. Cynyddodd allforion **£3.6m** ers 2022, a **£42.4m** ers 2019. Y ffigurau hyn yw'r trydydd uchaf yn yr UE yn ystod y cyfnodau dan sylw.

Ydau oedd y categori uchaf ei werth ar **£49.7m** sef cynnydd o **£8.3m** o **£41.4m** yn 2022. Roedd allforion bwyd a diod o'r DU i Iwerddon yn werth **£4.3bn** yn 2023, y gyrchfan bwyd a diod uchaf ei gwerth i'r DU.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Iwerddon, 2023 (£ miliynau)**



# Prif Farchnadoedd yr UE

## Gwlad Belg



Roedd allforion bwyd a diod i Wlad Belg yn werth **£78m** yn 2023. Mae hyn yn gynnydd o **£4.6m** ers 2022 (y mwyaf yn yr UE), a **£65.0m** ers 2019 (yr ail fwyaf yn yr UE).

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori uchaf ei werth ar **£30.7m** sy'n gynnydd o **£6.0m** o **£24.7m** yn 2022, y cynnydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn i Wlad Belg. Roedd allforion Bwyd a Diod o'r DU i Wlad Belg yn werth **£741.9m** yn 2023[4].

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wlad Belg, 2023 (£ miliynau)**




4. Mae categorïau gyda £0.0 yn nodi gwerth o lai na £100,000 ond mwy na £0. Mae £- yn nodi nad oes allforion o'r categori hwn.

# Prif Farchnadoedd yr UE

## Yr Almaen



Roedd allforion bwyd a diod i'r Almaen yn werth **£52m** yn 2023. Cynyddodd allforion o **£1m** ers 2022, a **£10.2m** ers 2019.

Cig a Pharatoadau Cig oedd y categori uchaf ar **£16.0m**, cynnydd o **£3.6m** o **£12.3m** yn 2022, y cynnydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn i'r Almaen. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Almaen yn werth **£1.0bn** yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Almaen, 2023 (£ miliynau)**



# Prif Farchnadoedd yr UE

## Yr Iseldiroedd

Roedd allforion Bwyd a Diod i'r Iseldiroedd yn werth **£50m** yn 2023, roedd hyn yn ostyngiad o **£2.4m** ers 2022, ond yn gynnydd o **£10.2m** ers 2019.

Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar oedd y categori uchaf ei werth ar **£11.5m**, roedd hyn yn ostyngiad o **£3.9m** o **£16.5m** yn 2022, ond yn gynnydd o **£6.2m** ers 2019. Roedd allforion Bwyd a Diod y DU i'r Iseldiroedd yn werth **£1.8bn** yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Iseldiroedd, 2023 (£ miliynau)**



# Cyrchfannau allforio y tu allan i'r UE

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE yn werth £202m yn 2023, gostyngiad bach o'i gymharu â £203m yn 2022. Mae hyn fodd bynnag yn gynnydd sylweddol dros y tymor hwy, gan gynyddu £63m ers 2019.

Y cyrchfannau uchaf y tu allan i'r UE oedd Saudi Arabia (£25m), UDA (£23m), Twrci (£16m), Awstralia (£13m) a'r Emiraethau Arabaidd Unedig (£13m). Roedd y 5 gwlad hyn yn cyfrif am 45% o'r holl allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE, a 11% o gyfanswm gwerth allforion bwyd a diod Cymru.

Y tri chategori allforio bwyd a diod uchaf eu gwerth i wledydd y tu allan i'r UE oedd Cig a Chynnyrch Cig (£46m), Ydau a Pharatoadau Ŷd (£46m), a Chynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£45m).

Rhwng 2019 a 2023, allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia welodd y cynnydd mwyaf, gan gynyddu £16m o £9m i £25m. Dilynwyd hyn gan yr Emiraethau Arabaidd Unedig a welodd gynnydd o £8m ac yna'r Swistir, a welodd gynnydd o £6m. Y cynnydd mwyaf rhwng 2022 a 2023 oedd Saudi Arabia a welodd gynnydd o £4m, dilynwyd hyn gan Dwrci (cynnydd o £3.7m) ac yna Irac (cynnydd o £1.6m).

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Ranbarthau y Tu Allan i'r UE, 2023**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Saudi Arabia



Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia yn werth **£25m** yn 2023, y gwerth mwyaf o wlad y tu allan i'r UE, gan gynyddu **£4.3m** ers 2022, ac **£18.9m** ers 2019.

Y cynnydd uchod yw'r mwyaf ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE am bob un o'u priod gyfnodau amser. Y categori allforio uchaf ei werth oedd Ydau a Pharatoadau Ŷd ar **£11m**. Allforiodd y DU werth **£250m** o fwyd a diod i Saudi Arabia yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Saudi Arabia, 2023 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## UDA



Roedd allforion Bwyd a Diod i UDA yn werth **£23m** yn 2023, gan ostwng **£1.0m** ers 2023, ond yn cynyddu **£3.2m** ers 2019.

Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol oedd y categori uchaf ei werth, sef **£10.7m**, a cynnydd o **£0.2m** o gymharu â **£10.4m** yn 2022. Roedd allforion bwyd a diod y DU i UDA yn werth **£2.4bn** yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i UDA, 2023 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Twrci

Roedd allforion i Dwrci yn werth **£16m** yn 2023, gan gynyddu **£4.2m** ers 2022, a **£4.8m** ers 2019.

Twrci sydd â'r cynnydd ail uchaf flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gwlad y tu allan i'r UE. Y categori allforio uchaf ei werth i Dwrci oedd Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar gyda gwerth o **£9.2m**. Roedd allforion bwyd a diod y DU i Dwrci werth **£244m** yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Dwrci, 2023 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Awstralia

Roedd allforion i Awstralia yn werth **£13m** yn 2023, gan gynyddu **£0.9m** ers 2022 a **£4.3m** ers 2019.

Y categori allforio uchaf ei werth i Awstralia oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, gyda gwerth o **£7.2m**, ac yna Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar gyda gwerth o **£2.4m**. Allforiodd y DU werth **£432m** yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Awstralia, 2023 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## EAU



Roedd allforion i'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn werth **£13m** yn 2023, gostyngiad o **£0.2m** ers 2022, ond yn gynnydd o **£4.3m** ers 2019 (yr ail fwyaf y tu allan i'r UE).

Y categori allforio uchaf ei werth i'r Emiraethau Arabaidd Unedig oedd Ydau a Pharatoadau Ŷd, gyda gwerth o **£8.9m**. Allforiodd y DU werth **£429m** o fwyd a diod i'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Emiraethau Arabaidd Unedig, 2023 (£ miliynau)**



# Marchnadoedd Pwysig y tu allan i'r UE

## Y Swistir

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i'r Swistir yn werth **£9.4m** yn 2023, gostyngiad bach o **£0.1m** ers 2022, ond cynnydd sylweddol o **£6.4m** ers 2019 (y trydydd mwyaf o'r tu allan i'r UE).

Y categori uchaf ei werth a allforiwyd i'r Swistir oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, gyda gwerth o **£3.9m**. Allforiodd y DU werth **£145m** o fwyd a diod i'r Swistir yn 2023.

**Allforion Bwyd a Diod o Gymru i'r Swistir, 2023 (£ miliynau)**



# Atoddiad A. Tablau data

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod ac Holl Allforion Cymru a'r DU (£ miliwn), 2019-2023**

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm DU | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2019 | 570 | 17,760 | 3.2 | 24,009 | 340,242 | 7.1 | 2.4 | 5.2 |
| 2020 | 552 | 13,535 | 4.1 | 21,743 | 290,620 | 7.5 | 2.5 | 4.7 |
| 2021 | 640 | 15,208 | 4.2 | 20,768 | 311,714 | 6.7 | 3.1 | 4.9 |
| 2022 | 797 | 20,488 | 3.9 | 25,285 | 374,435 | 6.8 | 3.2 | 5.5 |
| 2023 | 813 | 19,417 | 4.2 | 24,704 | 365,705 | 6.8 | 3.3 | 5.3 |

**Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (tunnell), 2019-2023**

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % o G'swm DU | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2019 | 271,400 | 8,663,900 | 3.1 | 15,082,600 | 154,285,300 | 9.8 | 1.8 | 5.6 |
| 2020 | 225,300 | 7,820,700 | 2.9 | 13,244,300 | 145,557,700 | 9.1 | 1.7 | 5.4 |
| 2021 | 227,500 | 7,542,800 | 3.0 | 10,728,900 | 128,623,300 | 8.3 | 2.1 | 5.9 |
| 2022 | 245,000 | 9,022,100 | 2.7 | 12,120,600 | 131,306,000 | 9.2 | 2.0 | 6.9 |
| 2023 | 222,600 | 7,965,900 | 2.8 | 11,543,300 | 124,004,900 | 9.3 | 1.9 | 6.4 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atoðiað A. Tablau ðata

**Gwerth allforion bwyd a diod Cymru yn ôl grŵp gwledydd (£ miliynau)**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2023 o'i chymharu â: 2019 % newid | 2023 o'i chymharu â: 2022 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd | 431 | 414 | 464 | 594 | 611 | ↑ 42% | ↑ 3% |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 36 | 33 | 57 | 70 | 68 | ↑ 88% | ↓ 4% |
| Asia ac Ynysoedd y De | 34 | 36 | 41 | 47 | 46 | ↑ 34% | ↓ 4% |
| Gorllewin Ewrop (Nid yr UE) | 21 | 27 | 29 | 30 | 33 | ↑ 63% | ↑ 13% |
| Gogledd America | 28 | 24 | 26 | 31 | 28 | ↓ 1% | ↓ 8% |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 10 | 11 | 12 | 15 | 15 | ↑ 45% | ↑ 1% |
| Dwyrain Ewrop (Nid yr UE) | 9 | 6 | 9 | 9 | 10 | ↑ 16% | ↑ 16% |
| America Ladin a'r Caribi | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | ↑ 105% | ↑ 69% |
| Cyfanswm | 570 | 552 | 640 | 797 | 813 | ↑ 43% | ↑ 2% |

**Canran o allforion bwyd a diod cymru yn ôl y grŵp gwledydd**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Undeb Ewropeaidd | 76% | 75% | 73% | 75% | 75% |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 6% | 6% | 9% | 9% | 8% |
| Asia ac Ynysoedd y De | 6% | 7% | 6% | 6% | 6% |
| Gorllewin Ewrop (Nid yr UE) | 4% | 5% | 4% | 4% | 4% |
| Gogledd America | 5% | 4% | 4% | 4% | 3% |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| Dwyrain Ewrop (Nid yr UE) | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| America Ladin a'r Caribi | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch (£ miliwn)**

| | | | | | | 2023 o'i chymharu â: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2019 % newid | 2022 % newid |
| Cig a Chynnyrch Cig | 171 | 199 | 187 | 265 | 280 | ↑ 64% | ↑ 6% |
| Ydau a Pharatoadau Ŷd | 60 | 51 | 139 | 160 | 175 | ↑ 194% | ↑ 9% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 133 | 107 | 106 | 138 | 131 | ↓ 1% | ↓ 5% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 77 | 74 | 75 | 85 | 90 | ↑ 17% | ↑ 7% |
| Diodydd | 32 | 20 | 31 | 43 | 40 | ↑ 26% | ↓ 8% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 29 | 32 | 28 | 37 | 29 | ↑ 1% | ↓ 20% |
| Bwyd Môr | 33 | 25 | 23 | 21 | 20 | ↓ 38% | ↓ 1% |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 10 | 11 | 19 | 18 | 19 | ↑ 97% | ↑ 8% |
| Llysiau a Ffrwythau | 18 | 17 | 14 | 14 | 13 | ↓ 27% | ↓ 3% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 7 | 12 | 11 | 12 | 11 | ↑ 68% | ↓ 4% |
| Olew a Braster | 2 | 2 | 8 | 5 | 3 | ↑ 74% | ↓ 34% |
| Cyfanswm | 570 | 552 | 640 | 797 | 813 | ↑ 43% | ↑ 2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Canran Allforion Bwyd a Diod Cymru fesul cynnyrch**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig | 30% | 36% | 29% | 33% | 34% |
| Ydau a Pharatoadau Ŷd | 10% | 9% | 22% | 20% | 22% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 23% | 19% | 17% | 17% | 16% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 14% | 13% | 12% | 11% | 11% |
| Diodydd | 6% | 4% | 5% | 5% | 5% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 5% | 6% | 4% | 5% | 4% |
| Bwyd Môr | 6% | 5% | 4% | 3% | 2% |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 2% | 2% | 3% | 2% | 2% |
| Llysiau a Ffrwythau | 3% | 3% | 2% | 2% | 2% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 1% | 2% | 2% | 1% | 1% |
| Olew a Braster | - | - | 1% | 1% | - |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Pwysau Allforion Bwyd a Diod fesul cynnyrch (tunelli)**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2023 o'i chymharu â: 2019 % newid | 2022 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydau a Pharatoadau o Ŷd | 61,300 | 34,900 | 64,400 | 68,600 | 55,900 | ↓ 9% | ↓ 19% |
| Cig a Chynnyrch Cig | 50,300 | 67,700 | 48,100 | 46,700 | 43,700 | ↓ 13% | ↓ 6% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 57,600 | 35,800 | 34,900 | 34,000 | 33,000 | ↓ 43% | ↓ 3% |
| Diodydd | 42,600 | 26,800 | 31,300 | 39,400 | 29,600 | ↓ 30% | ↓ 25% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 20,300 | 21,800 | 17,900 | 23,400 | 18,000 | ↓ 12% | ↓ 23% |
| Llysiau a Ffrwythau | 8,300 | 8,400 | 4,700 | 6,600 | 15,000 | ↑ 81% | ↑ 127% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 14,000 | 12,400 | 10,100 | 9,800 | 10,800 | ↓ 23% | ↑ 11% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 6,700 | 8,200 | 7,400 | 8,000 | 8,800 | ↑ 32% | ↑ 10% |
| Coffi, Te, Coco a Sbeis | 1,900 | 2,000 | 4,700 | 4,100 | 3,800 | ↑ 97% | ↓ 7% |
| Bwyd Môr | 7,700 | 6,300 | 3,000 | 3,400 | 2,800 | ↓ 63% | ↓ 18% |
| Olew a Braster | 700 | 900 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | ↑ 68% | ↑ 1% |
| Cyfanswm | 271,400 | 225,300 | 227,500 | 245,000 | 222,600 | ↓ 18% | ↓ 9% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**10 Gwlad Uchaf yn ôl Gwerth allforion bwyd a diod Cymru (£ miliynau), 2019-2023**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2023 o'i chymharu â: 2019 % newid | 2022 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrainc | 84 | 72 | 100 | 150 | 155 | ↑ 85% | ↑ 3% |
| Iwerddon | 106 | 107 | 112 | 145 | 148 | ↑ 40% | ↑ 2% |
| Gwlad Belg | 18 | 21 | 56 | 78 | 83 | ↑ 361% | ↑ 6% |
| Yr Almaen | 42 | 51 | 44 | 51 | 52 | ↑ 24% | ↑ 2% |
| Yr Iseldiroedd | 63 | 53 | 49 | 52 | 50 | ↓ 21% | ↓ 4% |
| Sbaen | 37 | 25 | 21 | 27 | 30 | ↓ 19% | ↑ 11% |
| Yr Eidal | 27 | 26 | 22 | 26 | 29 | ↑ 7% | ↑ 12% |
| Saudi Arabia | 9 | 9 | 18 | 21 | 25 | ↑ 178% | ↑ 19% |
| UDA | 20 | 20 | 20 | 24 | 23 | ↑ 15% | ↓ 4% |
| Gwlad Pwyl | 10 | 16 | 17 | 19 | 17 | ↑ 70% | ↓ 11% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)**

## Cig a Chynnyrch Cig

| | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Ffrainc** | 40 | 9,300 | 42 | 14,300 | 68 | 12,000 | 113 | 18,500 | 117 | 18,100 |
| **Gwlad Belg** | 8 | 3,500 | 11 | 6,400 | 16 | 7,900 | 25 | 5,100 | 31 | 7,100 |
| **Iwerddon** | 24 | 9,600 | 21 | 10,000 | 14 | 4,200 | 36 | 8,700 | 28 | 6,400 |
| **Yr Almaen** | 16 | 7,400 | 28 | 5,500 | 17 | 2,100 | 18 | 2,900 | 22 | 2,900 |
| **Yr Iseldiroedd** | 14 | 10,100 | 21 | 18,600 | 9 | 12,500 | 9 | 6,700 | 9 | 5,300 |

## Ydau a Pharatoadau Ŷd

| | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Iwerddon** | 24 | 14,900 | 25 | 14,100 | 36 | 14,500 | 41 | 13,700 | 50 | 13,400 |
| **Gwlad Belg** | - | 100 | - | 100 | 10 | 5,400 | 11 | 5,600 | 16 | 6,000 |
| **Yr Eidal** | - | 300 | - | 100 | 10 | 2,200 | 11 | 2,400 | 13 | 2,600 |
| **Saudi Arabia** | - | 200 | - | 200 | 8 | 2,800 | 11 | 2,500 | 11 | 2,100 |
| **Sbaen** | 3 | 13,800 | 1 | 3,100 | 8 | 9,300 | 10 | 12,200 | 11 | 9,700 |

## Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar

| | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Gwlad Belg** | 6 | 2,400 | 7 | 3,200 | 25 | 9,200 | 35 | 9,200 | 27 | 7,600 |
| **Iwerddon** | 25 | 20,300 | 24 | 10,900 | 21 | 8,700 | 28 | 7,100 | 25 | 7,500 |
| **Yr Iseldiroedd** | 23 | 12,900 | 9 | 5,700 | 16 | 8,900 | 15 | 8,200 | 11 | 6,300 |
| **Yr Eidal** | 7 | 2,400 | 4 | 1,600 | 4 | 1,200 | 5 | 1,200 | 9 | 3,200 |
| **Twrci** | 8 | 600 | 10 | 700 | 8 | 500 | 6 | 400 | 9 | 600 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**5 Prif Gynnyrch Bwyd a Diod Cymru a'r Prif Wlad sy'n eu Mewnforio (Gwerth mewn £ miliwn, pwysau mewn tunelli)**

**Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol**

| | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **UDA** | 11 | 300 | 12 | 300 | 11 | 300 | 10 | 300 | 11 | 400 |
| **Yr Almaen** | 8 | 1,200 | 7 | 1,000 | 6 | 500 | 8 | 400 | 10 | 1,900 |
| **Ffrainc** | 7 | 1,500 | 7 | 1,500 | 5 | 1,500 | 7 | 1,600 | 8 | 1,300 |
| **Yr Iseldiroedd** | 5 | 1,300 | 4 | 700 | 6 | 1,000 | 7 | 900 | 8 | 900 |
| **Iwerddon** | 8 | 2,700 | 10 | 3,000 | 6 | 2,100 | 6 | 2,100 | 8 | 2,100 |

**Diodydd**

| | 2019 | | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| **Iwerddon** | 3 | 6,600 | 4 | 6,800 | 14 | 15,800 | 11 | 11,600 | 10 | 9,200 |
| **Yr Iseldiroedd** | 4 | 6,300 | 4 | 4,900 | 2 | 1,700 | 5 | 4,800 | 7 | 6,700 |
| **Gwlad Belg** | 1 | 2,100 | - | 400 | - | 400 | 4 | 4,200 | 4 | 3,900 |
| **Sbaen** | 4 | 5,300 | 2 | 3,300 | 3 | 4,100 | 3 | 4,800 | 3 | 3,200 |
| **Tsieina** | 1 | 700 | 1 | 600 | 1 | 300 | 3 | 100 | 3 | 300 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Atodiad A. Tablau data

**Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliynau), 2019-2023**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2023 o'i chymharu â: 2019 % newid | 2022 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 570 | 552 | 640 | 797 | 813 | ↑ 43% | ↑ 2% |
| Yr Alban | 6,279 | 5,279 | 5,920 | 7,665 | 7,212 | ↑ 15% | ↓ 6% |
| Gogledd Iwerddon | 1,897 | 1,784 | 1,812 | 2,313 | 2,393 | ↑ 26% | ↑ 3% |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 257 | 239 | 294 | 313 | 300 | ↑ 17% | ↓ 4% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1,947 | 1,956 | 1,764 | 2,206 | 2,216 | ↑ 14% | ↑ 0% |
| Swydd Efrog a'r Humber | 1,241 | 1,236 | 1,137 | 1,291 | 1,310 | ↑ 6% | ↑ 1% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1,088 | 1,036 | 975 | 1,173 | 1,167 | ↑ 7% | ↑ 0% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 778 | 745 | 833 | 888 | 909 | ↑ 17% | ↑ 2% |
| Dwyrain Lloegr | 2,133 | 2,006 | 1,519 | 1,779 | 1,682 | ↓ 21% | ↓ 5% |
| Llundain | 3,016 | 2,625 | 2,454 | 2,914 | 2,789 | ↓ 8% | ↓ 4% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1,632 | 1,412 | 1,357 | 1,555 | 1,491 | ↓ 9% | ↓ 4% |
| De-orllewin Lloegr | 896 | 796 | 812 | 973 | 969 | ↑ 8% | ↑ 0% |
| Cyfanswm | 24,009 | 21,743 | 20,768 | 25,285 | 24,704 | ↑ 3% | ↓ 2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau Cyllid a Thollau EF

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

## Perthnasedd

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) **CThEF** (Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian.

Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael ei newid.

**Defnyddiwyd un ar ddeg o gategorïau SITC rev.4 (Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:**

**00**
Anifeiliaid byw heblaw'r rheini yng nghategori 03

**01**
Cig a pharatoadau cig
(Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynhyrchion cig")

**02**
Cynnyrch llaeth ac wyau adar

**03**
Pysgod
(nid mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt

**04**
Grawnfwydydd a Pharatoadau Grawnfwyd

**05**
Llysiau a ffrwythau

**06**
Siwgr, paratoadau siwgr a mêl

**07**
Coffi, te, coco, sbeis a chynnyrch ohonynt

**08**
Porthiant i anifeiliaid
(heb gynnwys ydau heb eu malu)

**09**
Cynnyrch a pharatoadau bwytadwy amrywiol

**11**
Diodydd

**41**
Olew a braster o anifeiliaid

**42**
Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu eu ffracsiynu
(Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster")

**DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.**

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategorïau cynnyrch, gan i gategorïau 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynhyrchion cig*, ac i gategorïau 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster*.

Cafodd "Storfeydd a Darpariadau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEF ar lefel genedlaethol (www. uktradeinfo.com).

## Cywirdeb

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEF. Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU.

Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEF yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.

Os oes gan fusnes ganghennau mewn mwy nag un rhanbarth, mae masnach y busnes hwnnw'n cael ei dyrannu i bob rhanbarth yn seiliedig ar **ba gyfran o'i weithlu sydd yn y rhanbarth hwnnw**, waeth beth sy'n cael ei allforio.

Mae Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol yn cynnwys cymysgedd o is-gategorïau gan gynnwys Marjarîn a chynnwys Breuo, a pharatoadau bwyd bwytadwy amrywiol fel paratoadau ffrwythau wedi'u coginio, paratoadau bwyd cyfansawdd, paratoadau saws amrywiol, a pharatoadau bwyd at ddefnydd babanod.

Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r categori yn: **SITC Revision 4**.
www.unstats.un.org/unsd/publication/SeriesM/SeriesM_34rev4E.pdf